

# Nawddsant

---

*“A paid â bod yn anghredadun, bydd yn gredadun.” (adn .27)*

## **Beth am ddarllen Ioan 20:24–31 ac yna myfyrio**

Fe gyfeirir yn fynych at Thomas fel nawddsant y rhai sy'n amau. Mewn sawl ffordd, mae'n drist fod yr un hanes hwn am Thomas yn cael ei gofio a phobl yn siarad amdano i'r fath raddau fel ei fod yn cysgodi y cyfan a ddywed yr Ysgrythur amdano. Yr ydym yn anghofio ei fod wedi symud yn fuan iawn y tu hwnt i'w amheuron ac mai ef oedd y cyntaf o'r disgyblion yn ôl yr Ysgrythur i gyffesu fod Iesu Grist yn Dduw.

Mewn unrhyw drafodaeth am ffydd, mae'n bwysig i nodi y gwahaniaeth rhwng amheuaeth ac anghrediniaeth, oherwydd mae llawer o Gristnogion wedi cael anhawster wrth ystyried eu hamheuron fel anghrediniaeth. Mae anghrediniaeth yn ganlyniad i feddwl sydd wedi ei gau, meddwl sydd wedi ei osod yn erbyn credu. Mae amheuaeth yn wahanol. Mae amheuaeth yn dweud, “Dwi ddim yn siŵr am hyn, ond os yw yn wir, yna yr wyf am gredu.”

Un o'r pethau sydd wedi fy synnu i yn fy mywyd Cristnogol yw sut mae amheuron yn medru cyd-fyw mor rhwydd gyda ffydd. Mae yna adegau pan fyddaf wedi cael fy meddiannu yn llwyr yng nghwmni Duw a hynny mewn gweddi. Ac yna, fe ddaw rhyw amheuaeth am ychydig eiliadau fel gwyfyn gan awgrymu mai 'siarad â thi dy hun yr wyt'. Beth bynnag, er bod amheuaeth yn ymweld â chalon y rhai sydd â ffydd ym modolaeth Duw, nid oes angen i'r amheuron gael cartref yn ein calon.

Mae'r byd yr ydym yn byw ynddo yn cael ei amgylchynu gan rym a nerth ein Duw ni, grym sydd beunydd beunos yn edrych am fynedfa i mewn i fywyd dynol ond yn cael ei rwystro gan anghrediniaeth. Yr ydym yn darllen fod Iesu wedi methu â gwneud unrhyw wyrthiau mawrion yn Nasareth oherwydd anghrediniaeth y bobl (Mathew 13:18). Ffydd yw y rhodd y mae Duw yn ei chyfrannu yn ei ras i bechadur a thrwy'r ffydd yma, daw nerth Duw i'r amlwg yn ein bywyd. Pan fydd pobl yn credu i'r eithaf, mae Duw yn dod fel llanw i'w calon ac i'w henaid.

## **Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**

Math. 13:53–58; 17:14–21; Marc 9:14–27

## **Meddyliwch am y cwestiynau hyn:**

1. Sut mae'r adroddiadau hyn yn dangos fod amheuaeth a chredo yn medru cyd-fyw?
2. Sut all credo oddiweddyd amheuaeth?

## **Gweddi**

O Dad, rwy'n diolch i ti am fy atgoffa unwaith yn rhagor o'r gwahaniaeth rhwng amheuaeth ac anghrediniaeth. Cynorthwya fi fwyfwy i amau fy amheuron ac i gredu fy nghredoau. Yn enw Iesu. Amen.